Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

Adroddiad i'r Cyfarfod Llawn o dan Reol Sefydlog 9.9:
Mis Ebrill 2006 tan fis Mawrth 2007

1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus yn un o saith Pwyllgor Pwnc y Cynulliad. Llunnir yr adroddiad hwn o dan Reol Sefydlog 9.9, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Bwyllgorau Pwnc gyflwyno adroddiadau gerbron y Cynulliad o bryd i'w gilydd ar hynt eu rhaglenni gwaith. Mae'n crynhoi gwaith y Pwyllgor rhwng mis Ebrill 2005 a mis Mawrth 2006.

2. Aelodaeth

2.1 Ein haelodau rhwng mis Ebrill 2006 a mis Mawrth 2007 oedd Ann Jones (y Cadeirydd), Sue Essex (y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus), Mike German, Peter Law (o fis Ionawr 2006 tan fis Ebrill 2006), Dai Lloyd, David Melding, Catherine Thomas a Gwenda Thomas.

3. Cylch Gwaith a Chyfrifoldebau

3.1 Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn adlewyrchu portffolio llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys llywodraeth leol a datblygu dulliau strategol o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Nid yw'n cynnwys cyfrifoldebau'r Gweinidog o ran arian y Cynulliad na materion sy'n ymwneud â pholisi neu arian sy'n perthyn i bortffolio arall.

3.2 Cynhaliodd y Pwyllgor 13 cyfarfod ffurfiol yn ystod cyfnod yr adroddiad. Cafodd yr holl gyfarfodydd ffurfiol eu cynnal yn y Senedd ym Mae Caerdydd ar wahân i'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf 2006 pan gyfarfu'r Pwyllgor yn adeilad y Cynulliad Cenedlaethol ym Mae Colwyn. Ar 8 Mehefin 2006, cyfarfu'r Aelodau'n anffurfiol â Syr Michael Lyons yn Nhrysorlys Ei Mawrhydi i drafod ei ymchwiliad i Lywodraeth Leol. Cyfarfu'r Pwyllgor hefyd ar y cyd â'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio i ystyried adroddiad gwerthuso am weithredu Cymunedau'n Gyntaf yng Nghymru, ac yn dilyn y cyfarfod hwnnw, gofynnwyd am sylwadau holl awdurdodau lleol Cymru ar y ffordd y caiff rhaglen Cymunedau'n Gyntaf ei gweithredu yn eu hardaloedd.

3.4 Rhestrir cyfrifoldebau'r Pwyllgorau Pwnc yn Rheol Sefydlog 9.7 a 9.8. Mae gweddill yr adroddiad hwn yn sôn am agweddau penodol ar waith y Pwyllgor o dan y penawdau a ganlyn:

4. GWAITH A'R HYN A GYFLAWNWYD HYD YMA

Datblygu Polisïau (Rheol Sefydlog 9.7(i))

Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad Ymchwiliad y Pwyllgor, sef 'Rheoleiddio ac Arolygu Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru'

4.1 Yn ei gyfarfod ar 15 Chwefror 2007, yn unol â'r protocol y cytunwyd arno ar gyfer monitro'r gwaith o ddatblygu polisi, cyflwynodd y Gweinidog y wybodaeth ddiweddaraf am hynt y gwaith o weithredu'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor.

Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad y Pwyllgor, sef 'Gweithredu strwythurau rheoli gwleidyddol newydd o fewn llywodraeth leol'

4.2 Ym mis Chwefror 2007, cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog am hynt y broses o weithredu'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor. Rhoddodd CLlLC hefyd y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed o ran yr argymhellion perthnasol.

Prosiect craffu ar drefniadau etholiadol yng Nghymru

4.3 Cytunodd y Pwyllgor ar delerau cylch gorchwyl ei drefniadau Etholiadol yng Nghymru[1] ym mis Mawrth 2005. Casglwyd tystiolaeth lafar ychwanegol gan dystion yn ystod y cyfnod adrodd, a chyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ar 6 Rhagfyr 2006. Trafodwyd yr adroddiad yn y Cyfarfod Llawn ar 6 Mawrth 2007 a bydd y Pwyllgor yn ystyried ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru ar 22 Mawrth 2007.

4.4 Derbyniodd y Pwyllgor hefyd bapur gan y Gweinidog ym mis Rhagfyr 2006 yn ymwneud ag etholiadau ac annog rhagor o bobl i gymryd rhan yn etholiadau llywodraeth leol.

Adolygiad Beecham o Wasanaethau Lleol

4.5 Cyflwynodd Syr Jeremy Beecham ei adroddiad ' Ar Draws Ffiniau' i'r Pwyllgor fis Medi 2006, ac ym mis Rhagfyr ystyriodd yr Aelodau ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru a CLlLC. Hefyd, cyflwynodd Cyfarwyddwr Canolfan Prifysgol Caerdydd ar gyfer Ymchwil Llywodraeth Leol a Rhanbarthol ei waith ar gymharu perfformiad awdurdodau lleol yn Lloegr a Chymru i'r Pwyllgor - roedd yr ymchwil hwn wedi'i gynnwys yn adroddiad 'Ar Draws Ffiniau'.

4.6 Yn ystod y cyfnod adrodd ystyriodd y Pwyllgor y canlynol hefyd mewn perthynas ag agenda 'Creu'r Cysylltiadau' Llywodraeth Cynulliad Cymru: adroddiad gan CLlLC am weithgareddau i hybu effeithlonrwydd llywodraeth leol a gweithio ar y cyd; cyflwyniad gan Gyfarwyddwr Rheoli yng Ngwasanaeth Cyhoeddus Cymru am ei waith a'i gynlluniau ar gyfer y dyfodol a'r wybodaeth ddiweddar gan Bennaeth yr Uned Creu'r Cysylltiadau am

---

[1] Cylch Gorchwyl: '*Ystyried materion yn ymwneud â threfniadau etholiadau llywodraeth leol ac etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol yng Nghymru, ac yn arbennig, cofrestru pleidleiswyr, canran y bobl sy'n pleidleisio, y bobl ifanc sy'n pleidleisio a phleidleisio mewn ieithoedd ac eithrio Saesneg; ystyried gwahanol fesurau a ddefnyddir o fewn systemau gwleidyddol eraill ar gyfer gwella'r ganran sy'n pleidleisio, cofrestru pobl ifanc a'u hannog i bleidleisio, ac i ba raddau y gallent gael eu cymhwyso i etholiadau llywodraeth leol ac etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol yng Nghymru; ystyried a oes unrhyw fesurau ychwanegol yn ofynnol er mwyn sicrhau bod y trefniadau pleidleisio yng Nghymru yn gwbl gynhwysol; cyflwyno argymhellion'*

ddatblygu Egwyddorion Craidd ar gyfer Gwasanaethau Cwsmeriaid i Bobl Cymru.

Adroddiad Ymchwil Strategaeth Gymunedol

4.7 Gofynnodd y Pwyllgor am bapur yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y broses annibynnol o werthuso cylch cyntaf strategaethau cymunedol Cymru. Cafwyd trosolwg ar ddatblygiadau yn y broses o werthuso strategaethau cymunedol yng Nghymru a chynigion ar gyfer bwrw ymlaen â chynllunio cymunedol.

Caffael Awdurdod Lleol

4.8 Ym mis Mai 2006, cafodd y Pwyllgor gyflwyniad gan swyddogion Cyngor Sir Caerfyrddin a swyddogion Gwerth Cymru am ddatblygiadau ym mhroses caffael awdurdodau lleol. Cafwyd rhagor o wybodaeth am waith Gwerth Cymru ym mis Tachwedd 2006 a mis Mawrth 2007.

Hynt y Cynllun i Gymell Twf Busnesau Awdurdodau Lleol a Chynllun Ardal Gwella Busnes Abertawe

4.9 Ym mis Mehefin 2006, trafododd y Pwyllgor hynt y Cynllun i Gymell Twf Busnesau Awdurdodau Lleol a Chynllun Ardal Gwella Busnes Abertawe.

Cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach

4.10 Trafododd y Pwyllgor gynigion ar gyfer Cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach ym mis Medi 2006 ac yna bu'n craffu ar reoliadau i weithredu'r cynllun.

Economi'r Nos

4.11 Cafodd y Pwyllgor gyflwyniadau gan nifer o westeion yn trafod materion yn ymwneud ag economi'r nos yng Ngogledd Cymru, gan gynnwys awdurdodau lleol, Licensed Victuallers Association a'r gwasanaethau brys. Roedd y Pwyllgor, cyn hyn, wedi ystyried goblygiadau Deddf Trwyddedu 2003.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

4.12 Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru am ei chwe mis cyntaf yn ei swydd.

Hynt Cyfrifiad 2011

4.13 Rhoddodd swyddogion Swyddfa Ystadegau Gwladol y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y gwaith a wnaed hyd yma ar gyfer Cyfrifiad 2011 yng Nghymru.

Adroddiad Blynyddol Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol

4.14 Cymeradwyodd y Pwyllgor adroddiad blynyddol Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol ar gyfer 2005-06.

Adroddiad y Pwyllgor ar Ariannu Ysgolion

4.15 Ym mis Hydref 2006, cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau adroddiad y Pwyllgor ar Ariannu Ysgolion ac ymatebodd i gwestiynau gan yr Aelodau.

Adolygu Gwariant a Gweinyddiaeth (Rheol Sefydlog 9.7(ii))

Adroddiad y Gweinidog

4.16 Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad gan y Gweinidog ym mhob yn ail gyfarfod ac roedd hyn yn caniatáu iddynt graffu'n rheolaidd ar y polisïau a'r penderfyniadau y mae'r Gweinidog yn gyfrifol amdanynt.

Adolygu'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (Rheol Sefydlog 9.7 (iii))

4.17 Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn cynnwys Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru. Ym mis Tachwedd 2006 bu'r Pwyllgor yn trafod Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y Comisiwn ar gyfer 2005-06. Casglodd y Pwyllgor dystiolaeth gan CLlLC ynghylch nifer o faterion yn ystod y cyfnod adrodd. Trafodwyd data perfformiad llywodraeth leol Cymru Gyfan ar gyfer 2005-06 â swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru, CLlLC ac Uned Ddata Llywodraeth Leol.

Deddfwriaeth (Rheol Sefydlog 9.8(i))

Deddfwriaeth Sylfaenol

Y Mesur Gweinyddu Etholiadau

4.18 Wedi i'r Pwyllgor graffu ar y Mesur yn 2005-06, ar 11 Ionawr 2006, derbyniwyd cynnig yn y Cyfarfod Llawn yn gofyn i'r Prif Weinidog ofyn i Ysgrifennydd Gwladol Cymru ddwyn gwelliannau'r Pwyllgor ymlaen. Ym mis Ebrill 2006, ysgrifennodd y Pwyllgor hefyd at yr Adran Materion Cyfansoddiadol i fynegi pryder ynghylch y ffaith nad oedd yr arfarniad rheoliadol a oedd ynghlwm wrth y Mesur yn cyfeirio at ddwyieithrwydd. Ym mis Mehefin 2006 trafododd y Pwyllgor ymateb yr Arglwydd Ganghellor i'w argymhellion, a'r sefyllfa ddiweddaraf o ran hynt y Mesur.

Y Mesur Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd

4.19 Ar 28 Tachwedd 2006, cyfeiriodd y Cynulliad y Mesur i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ei ystyried. Derbyniodd y Pwyllgor y papurau gan y Gweinidog am y darpariaethau ar gyfer Cymru yn y Mesur ar 18 Ionawr a 15 Chwefror 2007 a bydd yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn seiliedig ar y gwaith craffu hwn ym mis Mawrth 2007.

Is-ddeddfwriaeth

4.20 Parhaodd y Pwyllgor i weithio'n unol â'r protocol y cytunwyd arno ar gyfer trin is-ddeddfwriaeth, a sefydlwyd ym mis Mehefin 2004. Cafodd y Pwyllgor amserlen fanwl y ddeddfwriaeth arfaethedig ym mhortffolio'r Gweinidog ym mhob yn ail gyfarfod ac ystyriwyd 14 eitem o ddeddfwriaeth yn ystod y cyfnod y mae'r adroddiad hwn yn delio ag ef.

4.21 Mae manylion yr Is-ddeddfwriaeth a ystyriwyd ynghlwm yn Atodiad 1.

Deddfwriaeth Ewropeaidd

4.22 Ym mis Hydref 2006, ystyriodd y pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am eitemau'n ymwneud â deddfwriaeth a pholisïau'r UE yr oedd wedi'u dewis o Raglen Waith y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer 2006 i graffu ymhellach arnynt. Ym mis Ionawr 2007, ystyriodd y Pwyllgor eitemau yn Rhaglen Waith a Rhaglen Ddeddfu'r Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer 2007 a oedd yn berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor. Penderfynwyd cynnwys dogfen gyfathrebu'r Comisiwn am weithredu strategaethau cenedlaethol ar gyfer caffael cyhoeddus Gwyrdd yn ei adroddiad i'w drosglwyddo i'r Trydydd Cynulliad.

Cyllideb (Rheol Sefydlog 9.8(ii))

4.23 Ym mis Mai 2006, trafododd y Pwyllgor ei flaenoriaethau o ran y gyllideb o fewn Prif Grwp Gwariant Llywodraeth Leol ar gyfer 2007-08, ac ysgrifennodd at y Gweinidog i fynegi ei farn yn ffurfiol. Yn dilyn ei sesiwn graffu ar y gyllideb ddrafft yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Tachwedd 2006, ysgrifennodd y Pwyllgor at y Gweinidog dros Gyllid yn unol â Rheol Sefydlog 21. Ym mis Hydref 2006 trafododd y Pwyllgor hefyd gynigion pendant ar gyfer setliadau tair blynedd i Lywodraeth Leol yng Nghymru, ac ystyriodd Setliad Dros Dro i Lywodraeth Leol ym mis Tachwedd 2006.

Cwynion (Rheol Sefydlog 9.8(iii))

4.24 Ni ystyriodd y Pwyllgor unrhyw adroddiadau a gyflwynwyd iddo yn unol â Rheol Sefydlog 23.

Penodiadau Cyhoeddus (Rheol Sefydlog 9.8 (iv))

4.25 Ymgynghorwyd ag enwebeion penodiadau cyhoeddus y Pwyllgor[2] wrth benodi Aelod o Gyngor Llywodraethu Gwasanaeth Tribiwnlysoedd Prisio Cymru.

Materion a gyfeiriwyd gan y Cynulliad (Rheol Sefydlog 9.8(v))

4.26 Ni chyfeiriwyd unrhyw faterion gan y Cynulliad i'r Pwyllgor o dan Reol Sefydlog 9.8(v).

5. MATERION TRAWSBYNCIOL

[2] Ann Jones a David Melding.

Cydraddoldeb

5.1 Craffodd y Pwyllgor ar y rhannau perthnasol o Seithfed Adroddiad Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol ar Gydraddoldeb (2005-06) ym mis Hydref 2006 gan anfon ei sylwadau at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal.

5.2 Wrth graffu ar y trefniadau Etholiadol yng Nghymru, ceisiodd y Pwyllgor fynd i'r afael â materion cydraddoldeb gan gynnwys gallu pobl anabl, pobl ifanc, lleiafrifoedd ethnig a grwpiau sydd dan anfantais gymdeithasol i fod yn rhan o'r broses etholiadol. Nod nifer o'r argymhellion yn yr adroddiad terfynol oedd hybu cydraddoldeb mewn trefniadau etholiadol.

5.3 Trafododd y Pwyllgor hefyd ymateb awdurdodau lleol Cymru i reoliadau Partneriaethau Sifil â CLlLC.

Datblygu Cynaliadwy

5.4 Rhoddodd y Gweinidog y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ynghylch Cynllun Gofodol Cymru. Trafodwyd datblygu cynaliadwy yng nghyd-destun gweithgareddau caffael Gwerth Cymru.

6. BLAENRAGLEN WAITH

6.1 Mae blaenraglen waith strategol y Pwyllgor ynghlwm yn Atodiad 2.

Atodiad 1

Is-ddeddfwriaeth a drafodwyd gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

Yn unol â'r protocol y cytunwyd arno ar gyfer trin is-ddeddfwriaeth yn y Pwyllgor, nodwyd y Rheolau Sefydlog a ganlyn i graffu arnynt:

- Rheolau'r Pwyllgor Safonau (Cymru) 2006
- Gorchymyn Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol (Cymru) 2006 drafft
- Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethu Bach) (Cymru) 2006
- Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu a Rhyddhad Dewisol) (Diwygio) 2006
- Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol 2003 (Cychwyn Rhif 1 ac Arbedion) (Cymru) 2006
- Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2006
- Rheoliadau Mangreoedd etc Di-fwg (Cymru) 2006
- Rheoliadau Lleoli Plant (Cymru) 2007
- Rheoliadau Cartrefi Plant (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2007
- Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau) (Cymru) (Diwygio) 2007
- Rheoliadau Adolygu Achosion Plant (Diwygio) (Cymru) 2007
- Rheoliadau Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles (Cymru) (Diwygiadau) 2007
- Rheoliadau awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol ac Awdurdodau Tân ac Achub) (Cymru) 2007

Yn unol â Rheol Sefydlog 26, trafododd y pwyllgor Gorchymyn Gwahaniaethu ar Sail Rhyw (Awdurdodau Cyhoeddus) (Dyletswyddau Statudol) 2006.

Mae adroddiadau'n ymwneud â'r uchod i'w cael ar wefan y Pwyllgor[3].

Penderfynodd y Pwyllgor drafod yr Offerynnau Statudol a ganlyn yn y dyfodol:

- Gorchymyn (Sefydlu) Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus Cymru drafft
- Rheoliadau Codi Tâl am Dagfeydd
- Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cyfundrefn Cyfyngiadau Gwleidyddol) (Cymru) 2005
- Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion a Chod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2006/07
- Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cynnal Refferenda) (Diwygio) (Cymru) 2007

[3] http://www.cymru.gov.uk/keypubassemlocgovpubsvs/content/reports-e.htm

Atodiad 2

Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

Blaenraglen Waith Strategol
Mai 2006 - Ebrill 2007

Cyflwyniad

1. Mae'r rhaglen waith hon yn egluro blaenoriaethau strategol y Pwyllgor ar gyfer y deuddeg mis nesaf.

Cylch gwaith a chyfrifoldebau

2. Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn seiliedig ar bortffolio Gweinidog y Cynulliad dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ac mae'n ymwneud â llywodraeth leol ac â datblygu dull strategol o gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus a chynllun Gofodol Cymru. Nid yw'n ymwneud â chyfrifoldebau'r Gweinidog mewn perthynas ag arian y Cynulliad neu faterion polisi neu ariannol sy'n perthyn i bortffolio arall.

3. Prif swyddogaethau'r pwyllgorau pwnc, fel sydd wedi'u nodi yn Rheol Sefydlog 9 yw: datblygu polisi; craffu ar waith Gweinidogion a chyrff cyhoeddus; a chraffu ar ddeddfwriaeth.

Amcanion

4. Bydd y Pwyllgor yn datblygu dulliau strategol o weithio ac yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng trafod y pynciau sydd wedi'u cynnwys yn y portffolio a'i wahanol gyfrifoldebau.

Cyfrifoldebau

5. Dyma'r blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod nesaf:

Datblygu polisi (Rheol Sefydlog 9.7(i)) - bydd y Pwyllgor yn canolbwyntio ar y meysydd y gall ddylanwadu fwyaf arnynt o ran datblygu polisi. Bydd yn parhau â'i brosiect ar drefniadau etholiadol yng Nghymru; cytunwyd eisoes ar y cylch gorchwyl yn y cyswllt hwn. Bydd y Pwyllgor yn parhau i gadw llygad ar y gwaith o weithredu'r argymhellion yn ei adroddiadau ymchwil *Gweithredu strwythurau rheoli gwleidyddol newydd mewn llywodraeth leol* a *Rheoleiddio ac Arolygu Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru.* Bydd y Pwyllgor yn parhau â'i brosiect i graffu ar Drefniadau Etholiadol yng Nghymru a bydd yn cyhoeddi ei adroddiad terfynol yn ystod hydref 2006. Yn ogystal â hyn, bydd y Pwyllgor yn ceisio helpu i lywio unrhyw waith a wneir i ddiwygio'r agenda gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, yn sgil cynigion *Creu'r Cysylltiadau*.

– *Craffu ar waith y Gweinidog (Rheol Sefydlog 9.7(ii))* - bydd y Gweinidog yn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor ym mhob yn ail gyfarfod yn nodi'r datblygiadau cyfredol o fewn y portffolio. Gall y Pwyllgor hefyd gynnal ymchwiliad mwy trylwyr i bynciau penodol.

– *Craffu ar waith cyrff perthnasol (Rheol Sefydlog 9.7 (iii))* – bydd y Pwyllgor yn ystyried gwaith Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Uned Cydraddoldebau Llywodraeth Leol ac Uned Ddata Llywodraeth Leol.

– *Craffu ar ddeddfwriaeth arfaethedig a fydd yn effeithio ar Gymru (Rheol Sefydlog 9.8(i) a 24)* – ym mhob yn ail gyfarfod, bydd y Pwyllgor yn cael amserlen yr is-ddeddfwriaeth sy'n rhan o'i gylch gwaith. Bydd y Pwyllgor yn penderfynu craffu ar yr eitemau hynny o is-ddeddfwriaeth y gall ddylanwadu fwyaf arnynt a bydd hefyd yn ystyried is-ddeddfwriaeth ddrafft a gaiff ei gyfeirio ato gan y Dirprwy Lywydd fel y bo'n briodol. Yn ogystal â hyn, bydd y Pwyllgor yn cael gwybod am unrhyw ddeddfwriaeth sylfaenol arfaethedig berthnasol.

<u>Bydd y Pwyllgor yn ystyried yr eitemau a ganlyn wrth iddynt godi:</u>

– *Cynigion ar gyfer cyllideb y Cynulliad* (Rheol Sefydlog 9.8(ii)) – bydd y Pwyllgor yn nodi ei flaenoriaethau o ran y gyllideb yn ystod tymor yr haf ac yn rhoi sylwadau ar y gyllideb ddrafft yn ystod tymor yr hydref;

– *cwynion* (Rheol Sefydlog 9.8(iii) a 23) – bydd y Pwyllgor yn trafod unrhyw gwynion y cyfeirir ato o dan Reol Sefydlog 23;

– *penodiadau cyhoeddus* (Rheol Sefydlog 9.8(iv) a 22) - bydd y ddau enwebai penodiadau cyhoeddus ar y Pwyllgor yn cymryd rhan yn y broses o benodi aelodau cyrff cyhoeddus wrth i swyddi gwag godi;

– *materion eraill y bydd y Cynulliad yn eu cyfeirio at y Pwyllgor* (Rheol Sefydlog 9.8 (v)) – bydd y Pwyllgor yn trafod materion eraill y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cyfeirio ato, ond byddai'n gofyn i Aelodau Cynulliad ymgynghori â Chadeirydd y Cadeirydd cyn cyflwyno cynigion yn gwahodd y cyfarfod llawn i gyfeirio gwaith i'r Pwyllgor.

Dyletswyddau Statudol y Cynulliad.

6. Mae Deddf Llywodraeth Cymru 1998 yn rhoi dyletswyddau arbennig ar y Cynulliad Cenedlaethol, a bydd y canlynol yn llywio gwaith y Pwyllgor :

– *Cyfle Cyfartal (adran.48 ac adran.120)* – Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor eu cynnal yn gyhoeddus ac, ar adegau, mewn mannau oddi allan i adeilad y Cynulliad Cenedlaethol er mwyn rhoi cyfle i ragor o bobl ar hyd a lled Cymru fod yn rhan o fusnes y Cynulliad. Bydd y Pwyllgor yn ystyried cyfle cyfartal yng nghyswllt yr holl faterion yn ei bortffolio;

– *Datblygu Cynaliadwy (adran 121)* - drwy gydol ei drafodaethau, bydd y Pwyllgor yn canolbwyntio ar yr angen i gydbwyso twf economaidd a chymdeithasol â diogelu'r amgylchedd, drwy ddatblygu cynaliadwy. Bydd argymhellion ei adolygiad polisi ei hun yn adlewyrchu'r egwyddor hon.

Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus
Mai 2006